

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 21 Mai 2015 yn
Ystafell Ddosbarth y Ganolfan Wybodaeth**

Yn Bresennol:

Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa
Mrs Karin White	Ysgrifenyddiaeth GRhS Magnox
Aled Williams	Rheolwr Gwastraff, Magnox
Mrs Lowri Joyce	Swyddog Cyfathrebu Magnox
Mr Derek Jones	Swyddog Parodrwydd am Argyfwng Magnox
Dr Fred Brookes	Rheolwr E H S S & Q Mafnox Wylfa
Mr M Saunderson	Cynrychiolydd Undeb Llafur, Safle Wylfa
Mr Mark Ellsworth	Ffiseg a Cemeg Iechyd Magnox
Mr Tim Poole	ADCW
Cyng A Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Seiriol
Cyng K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng LI M Huws	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd GRhS)
Cyng John Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng William T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Dr John Idris Jones	Rheolwr Prosiect Ynys Ynni a Safle Magnox Wylfa (rhan amser)
Ms Carol Saretti	Swyddfa Rhaglen Ynys Ynni
Cyng J Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyng J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Cyng G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch (Is-gadeirydd GRhS)
Fiona Clyne	Cefas
Alistair Dewar	Cefas
Rona Arkle	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sarah Wallace	Asiantaeth yr Amgylchedd
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Roy Chape	Dŵr Cymru
PCSO Katy Hughes	Heddlu Gogledd Cymru
Mr Geraint Hughes	Tân ac Achub Gogledd Cymru
Mr H Jordan	Ffederasiwn Busnesau Bach, Garej Glan Rhos
Ms Annette Jones	Sefydliad y Merched
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Mr E T Morris	Dirprwy Bennaeth Ysgol Syr Thomas Jones
Mr Roger Dobson	Aelod o'r Cyhoedd
Mr Gordon Warren	Pwyllgor Preswylwyr Porth Llechog
Lowri Gwyn	Cymen – Cyfieithu ar y Pryd
Guto Ifan	Cymen – Cofnodion

Ymddiheuriadau

Mr Albert Owen	Aelod Seneddol Ynys Môn
Mr Rhun ap Iorwerth	Aelod Cynulliad
Mr Richard Parry Jones	Prif Weithredwr Dros Dro – Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Dylan Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd – Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Richard Owain Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn

Cyng Val Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Mr Dave Clarke	Diogelwch Niwclear Sifil y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Michelle Humphreys	Magnox
Mrs Jan Milburn	Rheolwr Datgomisiynu Magnox Wylfa
Cyng Huw Morris Jones	Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
Cyng Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Mr R Foxhall	Horizon Nuclear Power
Mr Keith Williams	Pennaeth yr Uned Cydnerthu, Ymddiriedolaeth GIG
	Ambiwylans Cymru
Mr Thomas Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Mr Steve Roberts	Preswlydd Lleol
Mr Peter Harrup	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Mr Alan Smith	Horizon Nuclear Power
Ms Heidi Williams	Undeb Amaethwyr Cymru
PC Louise Evans	Heddlu Gogledd Cymru
Mrs Helen Grove White	Fforwm Celf Môn
Mr Robin Grove White	Menter Mechell
Mr John Jones	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Mrs Gwyneth Jones	Merched y Wawr
Dr Derek Gadson	Aelod o'r Cyhoedd
Mr Gwyn Hughes	Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau
	Gogledd Cymru
Mr Mel O Hara	Preswlydd Lleol / Aelod o'r Is-grŵp Gwastraff
Mr Richard Cowell	Magnox

1. Croeso

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gyda'r newyddion trist bod Mr Isgoed Williams OBE, Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd wedi marw ers y cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd. Bu'n aelod o'r grŵp am flynyddoedd lawer ac fel arwydd o barch safodd yr aelodau ar eu traed ar gyfer munud o dawelwch er cof amdano.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gyda chroeso arbennig i'r rhai hynny oedd yn bresennol am y tro cyntaf.

Dywedodd Stuart Law wrth yr aelodau fod ymddiswyddiadau wedi digwydd heddiw ymhlith staff Magnox i raeadru trefniadau diswyddo gwirfoddol a phontio. Disgwylir y bydd cyfanswm staff Magnox yn gostwng 1,600 – 1,700 yn ystod y 17 mis nesaf.

Pwysleisiodd Stuart Law er bod Magnox yn gobeithio lleihau nifer y staff, y byddai'r gweithrediadau yn Wylfa'n parhau'n ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Eglurodd na fyddai'n golygu bod llawer o bobl yn gadael heddiw ond ei fod yn hytrach yn gyfle i nifer fach o bobl. Dywedodd hefyd bod cyfle i staff ddysgu sgiliau newydd o fewn y Sefydliad Rhiant Gorff. Bydd Wylfa'n mynd trwy broses o newid yn ddiweddarach eleni pan fydd y safle'n rhoi'r gorau i gynhyrchu ac yn cychwyn ar y cam dat-danwyddo. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig cadw sylw pobl ar eu gwaith yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Gofynnodd Arthur Jones os oedd y gostyngiad yn y safleoedd yn digwydd yng Nghymru'n unig ynteu a oedd yn digwydd ar draws y cwmni cyfan. Dywedodd Stuart Law fod y ffigur a roddwyd yn cyfeirio at y cwmni cyfan

Aeth y cadeirydd ymlaen i ymddiheuro bod cyfarfod mis Ebrill wedi gorfod cael ei ad-drefnu ar gyfer heddiw. Y rheswm am hynny oedd na allai neb o'r ADN fod yn bresennol mewn



cyfarfodydd cyhoeddus yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol. Roedd hyn wedi effeithio ar bob un o safleoedd Magnox.

2. Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod 13 Tachwedd

Nid oedd dim newidiadau i gofnodion y cyfarfod diwethaf a chawsant eu cynnig gan y Cyng Cyng William T Hughes a'u Heilio gan y Cyng Gareth Winston Roberts.

3. Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Cafwyd adroddiad gan Stuart Law ar rai o'r digwyddiadau diweddar ar y safle. Ddiwedd mis Rhagfyr darganfuwyd tair falf graidd wedi'u cau ar systemau pad oeri'r tryledwr Cylchdroi Nwy pan ddylent fod yn agored. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd adolygiad o drefniadau monitro'r orsaf, i ddibenion cynyddu atebolrwydd am gwblhau archwiliadau.

Oherwydd gwaith selio gwael ar y falfiau torri i ffwrdd, cafodd cyfiawnhad dros barhau i weithredu ei gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch Niwclear. Mae'r Cwmni hefyd wedi cynnal adolygiad annibynnol o weithrediadau'r safle ac mae'r safle'n ymateb i gynllun gwella. Yn ystod gweithrediadau ail lwytho tanwydd arferol bu problem wrth adennill tanwydd, ac yn dilyn cyfnod o oeri defnyddiwyd camera o bell i ymchwilio, a thynnwyd y tanwydd oddi yno gan ei fod wedi plygu rhywfaint; ni chanfuwyd dim o'i le ar y tanwydd. Rydym yn gwneud penderfyniadau ceidwadol o hyd wrth i'r oraf ddynesu at ddiwedd ei hoes.

Bu digwyddiad hefyd pan ryddhawyd rhywfaint o Ddŵr Oeri'r Adweithydd Atodol, ar ôl i weithiwr adael falf ar agor. Cafodd y broblem ei chyfyngu o fewn Adeilad yr Adweithydd, ond ni ddylai fod wedi digwydd. Dylai'r gweithiwr fod wedi trafod y broses â'r Arweinydd Tîm neu'r Peiriannydd â Gofal am y Shifft, ond ni wnaeth hynny, ac roedd hynny wedi dwysau'r broblem, felly roedd yn fater gweithdrefnol, yn hytrach na mecanyddol.

Dywedodd fod grŵp o bobl annibynnol wedi eu gwahodd i gael golwg o amgylch y safle ar gyfer adolygiad, a'i fod yn gymysgedd o bobl o fewn y cwmni ac aelodau'r pwyllgor diogelwch a fydd wedyn yn paratoi adroddiad, ac y byddai cynllun gweithredu wedyn yn cael ei gynhyrchu. Dychwelodd yr orsaf i gynhyrchu a chafodd gollyngiadau a oedd mewn boeler ers amser eu trwsio, ac nid yw hynny'n ddigwyddiad anghyffredin. Mae'r Adweithydd ar bŵer llawn enwol wrth i ddiwedd y cyfnod cynhyrchu agosáu. Mae lefel yr adweithedd yn y tanwydd yn lleihau, ac nid oes dim tanwydd newydd wedi dod i'r orsaf ers 2011. Mae gostyngiad yn y pŵer yn debygol ar ddiwedd y cylch tanwydd.

Cafodd Desicant ei anfon o'r safle'n ddiweddar a hwn oedd y llwyth cyntaf o Wastraff Lefel Ganolraddol i adael y safle ar gyfer gwarediad terfynol. Mae'r system cofnodion tanwydd, sy'n cael ei defnyddio i fonitro trywydd tanwydd o amgylch y safle'n cael ei hadolygu gan fod sawl camgymeriad wedi'u canfod yn y meddalwedd.

Cadarnhawyd mai'r bwriad oedd y byddai'r Cwnstabiliaeth Niwclear Sifil (CNC) yn gadael y safle erbyn diwedd Ebrill 2016. Mae hyn yn amodol at gymeradwyaeth reoleiddiol.

Pan fydd y safle'n cyrraedd diwedd ei gam cynhyrchu byddwn yn ystyried dod â gwaith y ganolfan Wybodaeth a'r cafffi i ben, a bydd hynny'n golygu na fydd y cyfleusterau hyn ar gael wedyn i staff Magnox na'r cyhoedd.



Gofynnodd Arthur Jones os oedd y falffiau'n cael eu gweithio â llaw a beth fyddai'r sefyllfa waethaf bosibl wedi bod.

Dyweddodd Stuart Law fod y falffiau yno rhag ofn y byddai pibelli Llestr yr Adweithydd yn methu, ac a fyddai wedyn yn caniatáu'r pibelli Dŵr Oeri Llestr yr Adweithydd i fod dan bwysau. Ar y pryd, roeddem wedi cyflwyno achos diogelwch i'r pwyllgor diogelwch i gael sylwadau'n ymwneud â'r achos.

Gofynnodd Arthur Jones pam fod y falffiau ar y system oeri wedi'u cau, ac a ellid priodoli hynny i draul yn hytrach na methiant mecanyddol.

Dyweddodd Stuart Law nad oedd hyn yn fethiant mecanyddol, ond ni allai fod yn siŵr pam fod y falffiau'n cau. Mae gan y system yn awr larymau ar waith i wneud yn siŵr na fydd hyn yn digwydd eto. Mynegodd Ken Hughes bryderon, er mai camgymeriad dynol oedd wedi achosi hyn, nad oedd y gweithdrefnau sydd ar waith yn ddigon cadarn i dynnu sylw ato'n gynharach.

Dyweddodd Stuart Law y bydd Rheolwr y Gwaith yn awr yn adolygu'r gweithdrefnau sydd ar waith yn fisol. Gofynnodd Arthur Jones am ddiweddariad ar y materion trosglwyddo tanwydd rhwng adweithyddion a grybwyllwyd yn y cyfarfod blaenorol. A oedd yr elfennau a oedd wedi plygu rhywfaint wedi cael eu tynnu o'r Adweithydd? Dywedodd Stuart Law fod pob un o'r elfennau'n awr wedi cael eu tynnu o'r sianel a bod y sianel a'r elfennau'n awr yn iawn.

5. Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Siaradodd y Cadeirydd am y gweithgareddau roedd wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf.

Ar 29 Ebrill cyfarfu â thîm Gweithredol Magnox yn Swydd Gaerloyw am gyfarfod brys i drafod materion yn ymwneud â Chynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox, a fyddai'n cael sylw yn y Diweddariad Economaidd Gymdeithasol yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Rhif 9 ar yr Agenda).

Siaradodd hefyd am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant nesaf o safbwynt y cam cyllido nesaf ar gyfer y gwaith datgomiynu, a bod y Llywodraeth ddiwethaf yn teimlo fod dyletswydd foisol arni i wario'n hael ar ddatgomiynu, ond bydd yn rhaid aros i weld a fydd y Llywodraeth Geidwadol newydd yn cadw at hyn. Disgwylir y bydd y ffigurau'n cael eu rhyddhau yn yr Hydref. Roedd systemau unffurf yn cael eu mabwysiadu yn yr holl safleoedd rhwng Awst 2015 a Mawrth 2016.

Ni chafwyd cwestiynau gan yr aelodau.

6. Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear

Ymddiheurodd Jonathan Jenkin yn gyntaf am mai dim ond diweddariad Ebrill oedd ar gael; roedd diweddariad Mai wedi'i ganslo. Oherwydd y cyfnod o ymneilltuo roedd mwy o sensitifrwydd nag arfer ynglŷn â sut y gallai'r ADN gyfathrebu yn ystod y cyfnod a oedd yn arwain at yr Etholiad Cyffredinol.

Roedd cam pwysig ym mhroses ddatgomiynu Sellafield wedi digwydd, sef cael gwared ar y cyntaf o'r hen laid ymbelydrol. Treialon oedd y rhain, gyda'r llaid yn cael ei symud o un o hen byllau tanwydd y safle, cyn i'r prif waith ddechrau ym mis Ebrill 2016. Mae hwn yn gam



pwysig iawn, ac roedd llawer o heriau ynghlwm wrth y gwaith, gan god 1500 o fetrau ciwbig o laid yno'n aros i'w symud, ond rhaid cadw'r dŵr i weithredu fel tarian ymbelydrol ar gyfer y tanwydd niwclear sy'n cael ei storio.

Siaradodd Mr Jenkin hefyd am gynllun busnes yr ADN ar gyfer 2015/16 sydd newydd gael ei gyhoeddi. Yn ogystal â chynlluniau gwario ac incwm am y flwyddyn i ddod, mae hefyd yn cynnwys rhestr o dargedau cyffredinol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a rhestr o weithgareddau ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Mae'r cynllun llawn ar gael ar eu gwefan.

Yn ddiweddar cafodd yr ADN gymeradwyaeth i fwrw ymlaen ag archif niwclear, a dywedodd Mr Jenkin fod caniatâd cynllunio bellach wedi'i roi ar gyfer y cyfleuster, a fydd yn cael ei leoli yn yr Alban. Disgwylir y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2016, a bydd yn cynnwys dros 70 mlynedd o wybodaeth am ddiwydiant niwclear y DU, gan gynnwys hyd at 30 miliwn o gofnodion digidol.

Wedyn, siaradodd Mr Jenkin am y targed y mae'r Llywodraeth wedi'i osod iddi'i hun ac i bob corff cyhoeddus, sef bod yn rhaid iddynt wario o leiaf 20% o'u gwariant blynyddol â Busnesau Bach a Chanolig. Roedd yr ADN wedi cyrraedd y targed hwn, gydag o leiaf 21% o'i wariant â busnesau o'r fath, ac mae'r Llywodraeth wedi codi'r targed i 25% erbyn diwedd y Senedd hon, ffigur y mae'r ADN yn rhagori arno, ac y mae'n hyderus y bydd yn ei gyflawni. Mae'r cynllun pontio staff hefyd wedi bod yn llwyddiant. Mae'r cynllun, a gafodd ei lansio i helpu gweithwyr a fydd yn colli eu gwaith o ganlyniad i lai o swyddi yn Nhrawsfynydd a Wylfa, yn cynnig hyfforddiant gyfaol iddynt. Mae dros 1,400 o weithwyr wedi ymuno â'r cynllun, sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed o 1,200. Yr enw arno yw Llunio'r Dyfodol, ac mae'n cael ei ariannu gan yr ADN, Cronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, a Chynghorau Sir Gwynedd ac Ynys Môn.

Bydd yr ADN yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'r adolygiad o'i strategaeth; mae adolygiad yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd o dan y Ddeddf Ynni. Bydd y ddogfen derfynol yn amodol ar gymeradwyaeth gweinidogion y DU a'r Alban. Anogwyd yr aelodau i gyflwyno'u hadborth yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cwestiynau

Holodd Gordon Warren am y 1,500 metr ciwbig o laid; beth fydd yn digwydd iddo pan fydd yn gadael pwll storio cenhedlaeth gyntaf Magnox a sut gaiff ei storio dros y tymor hir. Hefyd, a oedd y llaid a oedd i gael ei symud yn wastraff lefel uchel? Dywedodd Mr Jenkin nad oedd yn wastraff o'r fath, a'i fod yn wastraff lefel ganolraddol. Mae'r pyllau'n danwydd wedi'i ddihysbyddu o safleoedd Magnox, ac mae glanhau'r rhain a seilos eraill yn dasg beirianyddol gymhleth iawn.

Gofynnodd Arthur Jones a oedd dyddiad cwblhau terfynol wedi'i bennu ar gyfer proses ddatgomiynu Sellafield, ac atebwyd yn gadarnhaol, a bod disgwyl y bydd y gwaith yn cau yn 2020; fodd bynnag, bydd y broses o ddatgomiynu llawn yn parhau am ddegawdau wedi hynny, am hyd at 110 o flynyddoedd. Mae rhai materion y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth benderfynu yn eu cylich, ond mae cynllun oes Wylfa yn parhau tan 2150.

Aeth Arthur Jones yn ei flaen i ddweud ei fod yn cofio clywed sôn mewn cyfarfod o'r GRhS ychydig flynyddoedd yn ôl bod angen i danwydd Wylfa fod yn Sellafield erbyn 2020.

Eglurodd Stuart Law fod hwn yn gwestiwn gwahanol ac mai'r rheolyddion fydd yn penderfynu. Atgoffodd y cadeirydd yr aelodau fod nifer o gyfleusterau yn Sellafield.

Gofynnodd Arthur faint o safleoedd eraill oedd yn defnyddio tanwydd Magnox. Yn ôl Stuart pan fydd Wylfa wedi cau, ni fydd neb yn ei ddefnyddio.

Aeth Jonathan ymlaen i egluro mai'r nod oedd symud yr holl danwydd o Wylfa erbyn 2018.

7. Diweddariad gan Is-grŵp Gwastraff GRhS Wylfa

Croesawyd Aled Williams i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Mae Aled wedi olynu Mark Thornton fel Rheolwr Gwastraff ers mis Mawrth 2015. Siaradodd Aled Williams ychydig am ei amser gyda'r cwmni, gan egluro ei fod wedi bod yn gysylltiedig â'r cwmni er 1978, gan weithio yn yr ystafell reoli ac ar ochr beirianyddol y safle, ymhlith pethau eraill. Mae bellach yn gweithio fel Rheolwr Gwastraff. Bu'n Rheolwr Dat-danwyddo am rai blynyddoedd, ac yn ddiweddar bu ar secondiad gyda WANO (Cymdeithas Gweithredwyr Niwclear y Byd), sy'n gweithio i sicrhau'r safonau uchaf posibl o ran diogelwch niwclear. Mae wedi dysgu llawer am y safonau a ddisgwylir ganddynt, a byddai'n awr yn cyflwyno'r safonau hynny i Safle Wylfa. Dywedodd fod gan Wylfa enw da eisoes.

Mater pwysig yn y maes gwastraff yn ddiweddar oedd argaeledd arian ar gyfer y llwyth cyntaf o Wastraff Lefel Ganolraddol sydd i gael ei gludo o'r safle, ac roedd hynny wedi cynnwys gwaith tîm da gan bawb oedd yn gysylltiedig â'r gwaith.

Gofynnodd Arthur Jones i ble oedd y dessicant wedi mynd a sut y bydd yn cael ei brosesu. Eglurodd Aled Williams fod y strategaeth waredu wedi newid, a'i bod bellach yn broses golchi a llosgi a bod y Gwastraff Lefel Ganolraddol yn cael ei olchi yn Winfrith a'i losgi yn Fawley. Gofynnodd Arthur am sicrwydd na fyddai'r Dessicant yn cael ei storio yn Wylfa mwyach. Cadarnhaodd Aled W na fyddai'n cael ei storio yno ond bod mwy ohono yn yr Adweithydd. Gofynnodd Arthur ai dyma'r holl ILW sydd ar y safle. Dywedodd Aled W nad dyna oedd yr achos ond ymdrinnir ag ychydig bach ohono wrth fynd ymlaen.

8. Adroddiad y Pwyllgor Ymgynghorol Cynllunio at Argyfwng

Trafododd Fred Brookes raglen yr Ymarferiad Argyfwng llawn a oedd wedi'i gynnal, ynghyd ag ymarferiad ychwanegol eleni a oedd yn cynnwys ymarferion hyfforddi Beyond Design Basis, a ddaeth i ben gydag ymarferiad arsylwi ar 11 Medi 2014. Roedd yr ONR yno i arsylwi, ac roeddent wedi dweud eu bod yn hyderus bod yr offer cywir yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn cael eu defnyddio'n briodol.

Cynhaliwyd y prawf ymarferion tân blynyddol am yr ail flwyddyn, a chwblhawyd yr ymarferion y tu allan i oriau swyddfa ac yn ystod oriau gwaith arferol ac roeddent yn ddirybudd. Barnwyd fod yr ymateb yn dda, ac yn well nag yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd ymarferiad safle Maentwrog ym mis Mawrth wedi bod yn un gorchymyn a rheoli ac a oedd yn cynnwys y tîm bach sy'n gweithio ar y safle.

Ar y dydd Mercher cyn yr ymarfer, cynhaliwyd ymarferiad gwrth derfysg gyda'r ONR-CNS yn bresennol. Roedd yr ymarfer yn cynnwys dangos trefniadau gwrth derfysg y safle gan gynnwys ymateb y CNC i ddigwyddiad o'r fath, a'r defnydd o EOD (Gwaredu Ordians Ffrwydrol). Roedd yn ymarferiad heriol, a gynhaliwyd y tu allan i oriau gwaith arferol, a dywedodd yr ONR ei fod wedi cael ei gyflawni'n dda a'i fod yn hapus â'r ffordd yr oedd pawb wedi ymateb.

Disgwylir y bydd y gweithrediadau masnachol yn Wylfa yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2015. Bydd y safle wedyn yn cychwyn ar gyfnod o Ddat-danwyddo Swmp ym mis Ebrill 2016, a fydd, ar yr un pryd â rhoi'r gorau i gynhyrchu, yn lleihau proffil peryglon y safle'n sylweddol. Mae hyn yn golygu y bydd newidiadau i'r Trefniadau Cynllun Argyfwng yn briodol, a byddant yn cyd-fynd â'r lleihad mewn peryglon. Mae cyfarfodydd a thrafodaethau wedi cychwyn eisoes â'r gwasanaethau brys. Gyda diwedd cynhyrchu, a'r pwyslais ar y cam dat-danwyddo, bydd llai o angen am weithredu gan dimau argyfwng, gan y dylai'r gwasanaethau



brys lleol allu ymdopi â'r amserlenni newydd a graddfa'r diffygion. Fel rhan o'r newidiadau i'r trefniadau mae'n debygol y bydd CNC yn gadael y safle.

Ni ofynnwyd dim cwestiynau gan yr aelodau.

9. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd Gymdeithasol ac Ymgynghoriad y Cynllun Datblygu Economaidd Gymdeithasol 2015-2018

Ymddiheurodd Lowri Joyce ar ran Michelle Humphreys a dywedodd y cafwyd cytundeb y bydd cynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox yn parhau ym mhob un o'r 12 safle. Bydd panel economaidd gymdeithasol yn adolygu'r ceisiadau cymydog da, a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr y safle a chadeirydd y GRhS, gyda £6,000 yn cael ei ddyrannu i bob safle bob blwyddyn ariannol.

Dywedodd A M Jones ei fod yn bryderus bod cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd i'r 26 sefydliad yn fwy na £16,000, gan gofio mai £6,000 oedd y gyllideb ar gyfer Wylfa ar hyn o bryd. Cafodd cyfarfod brys ei gynnal ar 30 Ebrill gyda swyddogion gweithredol Magnox a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y GRhS, a bod y swyddogion gweithredol wedi addo y bydd yn edrych eto ar y broses ariannu, gan nad yw'r holl arian yn cael ei ddefnyddio i gyd ym mhob safle. Fodd bynnag, roedd yn annog pob sefydliad i wneud cais, gan fod y cynllun yn un llwyddiannus iawn ar y cyfan.

Bydd gŵyl seiclo pythefnos o hyd yn cychwyn ym Môn; y Tour de Môn ar 30 Awst, gyda'r Tour of Britain yn dilyn ar 6 Medi 2015. Mae'r ADN yn cefnogi hyn gyda £60,000 o arian Cynllun Economaidd Gymdeithasol Magnox. Mae'r Tour of Britain yn cychwyn ym Miwmares a bydd yn cael ei dangos yn fyw ar deledu ITV, a bydd hyn yn golygu y bydd yr ardal a Gogledd Cymru gyfan yn cael 3-4 awr o sylw ar deledu byw, ac os bydd yn llwyddiannus, efallai y bydd rhagor o wyliau seiclo'n cael eu trefnu, sydd bob amser yn hwb sylweddol i'r economi leol.

10. Cefas – Adroddiad RIFE 2013 ac arolygon arferion Wylfa

Cafodd Fiona Clyne ac Alastair Dewar o'r Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu eu croesawu i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd a roddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar yr Arolwg Arferion Radiolegol a gynhaliwyd yn 2013. Defnyddiwyd yr arolygon hyn yn adroddiad RIFE 19 ac mae ar gael ar wefan Cefas.

Roedd dros 350 o bobl leol wedi cynorthwyo gyda'r arolwg ac roedd Fiona ac Alastair yn awyddus i ddiolch iddynt drwy gyfwng y grŵp hwn am roi o'u hamser.

11. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Ni chafwyd dim cwestiynau.

12. Unrhyw fater arall

Ymddiheurodd Arolygydd Safleoedd ONR nad oedd slot yr ONR ar yr Agenda – nid oedd ar gael i fod yn bresennol yn y cyfarfod yn wreiddiol am fod y dyddiad wedi'i newid – aeth ymlaen i ddweud bod Cyfarwyddwr y Safle wedi ymdrin â'r rhan fwyaf o gynnwys adroddiad yr ONR am y chwarter diwethaf.



Roedd yr ONR wedi cydnabod pwysigrwydd y digwyddiad gyda phad y tryledwr; ni fyddai wedi achosi niwed i'r cyhoedd ond roedd y camgymeriadau a ddaeth i'r amlwg yn bwysig. Daeth arolygydd arbenigol i'r safle i adolygu perfformiad dynol. Ni chymerwyd camau pellach, a bydd yr ONR yn parhau i fonitro'r safle wrth i'r gwaith ddod i ben.

Mae'r ymchwiliadau i ollyngiadau dŵr RACW yn parhau ac mae'r ONR yn aros i'r safle eu cwblhau gan y byddant yn edrych ar y digwyddiad hwn ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n werth nodi ochr bositif y digwyddiad gan ei fod wedi canfod gwendidau yn y ffordd y mae gweithdrefnau'n cael eu dehongli. Mae'r ONR wedi gofyn i'r safle roi Rhaglen Gwella Gweithrediadau ar waith ynghyd â gwaith ychwanegol i warantu diogelwch niwclear yn ystod y misoedd olaf o gynhyrchu ac wrth i'r safle fynd ymlaen i'r cyfnod dat-danwyddo.

Y casgliad oedd na chafodd diwylliant diogelwch y safle ei danseilio, a bod yr holl staff yn rhoi sylw i ddiogelwch, ac nad ydynt yn gadael i'r ansicrwydd ynghylch eu dyfodol amharu ar eu dyletswyddau. Diolchodd y cadeirydd i arolygydd yr ONR am fod yn gwbl dryloyw ac annibynnol.

Holodd Arthur Jones am y broblem gyda Chell Storio Sych 1 y soniwyd amdani o safbwynt rheoleiddiol yn adroddiad yr ONR. Eglurodd Stuart Law nad oedd y system interlock yn gweithio, a'r sefyllfa waethaf bosibl fyddai bod y larymau Pile Cap Co2 wedi canu.

Ychwanegodd yr arolygydd ONR mai'r meini prawf adrodd yw 1 wythnos ar gyfer y safle i roi gwybod i ni a'i fod yn fodlon bod y safle'n gwybod beth mae'n ei wneud.

Gofynnodd Arthur Jones am y broblem yn ymwneud â'r system cofnodion tanwydd. Eglurodd yr ONR ei bod yn rhan o'r system ddiogelu. Dywedodd Stuart Law nad oedd y cyfrifiadau'n gywir a bod hynny'n arwain at gyfeiliornad canrannol a fyddai wedyn yn effeithio ar ffrydiau gwastraff Sellafield. Aeth Arthur yn ei flaen i ofyn am y rhodenni tanwydd nad oedd wedi dod i'r golwg. Eglurodd Stuart Law ei fod yn credu ein bod wedi eu symud oddi ar y safle – ond eu bod yn awr yn ôl yn y system cofnodion tanwydd.

Mynegodd yr Is-gadeirydd Gareth Winston Roberts ei ddymuniad i ddiolch i'r holl staff ar y safle am eu gwaith, a chynigiodd fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Grŵp i ddiolch iddynt. Cytunodd Aled Jones i ysgrifennu at Gyfarwyddwr y Safle ar ran y Grŵp.

Holodd Arthur Jones am y sŵn gormodol y gellid ei glywed o'r Orsaf ar Ddydd Llun y Pasg. Ymddiheurodd Stuart Law am unrhyw anhwylustod ac eglurodd mai amodau atmosfferig ar adeg defnyddio'r Quick Start Air Ejectors oedd yn gyfrifol am y sŵn, a bod yr orsaf yn sicrhau bod lefelau sŵn yn cael eu cadw mor isel â phosibl rhwng 10pm a 7am.

13. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Daeth y cyfarfod i ben am 6.15pm. Dyddiad ac amser y cyfarfod yw 19 Tachwedd am 3pm.